



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2008 Rhif 1438 (Cy.150)

2008 No. 1438 (W.150)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

**SEA FISHERIES,
WALES**

**Gorchymyn Cŵn Gleision
(Gwahardd eu Pysgota) (Cymru)
2008**

**The Tope (Prohibition of Fishing)
(Wales) Order
2008**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gwahardd pysgota am gŵn gleision drwy ddefnyddio unrhyw ddull heblaw gwialen a lein. Caniateir cadw uchafswm o hyd at 45 cilogram mewn pwysau byw o gŵn gleision ar fwrdd cwch mewn diwrnod.

Article 3 of this Order prohibits the fishing for tope by any method other than by rod and line. The retention on board of tope up to a maximum liveweight of 45 kilogrammes per day is permitted.

Mae erthygl 4 yn gwahardd trawslwytho cŵn gleision.

Article 4 prohibits the trans-shipment of tope.

Mae erthygl 5 yn gwahardd glanio yng Nghymru gwn gleision a ddaliwyd â gwialen a lein neu gwn gleision y torrwyd eu pennau.

Article 5 prohibits the landing in Wales of tope caught by rod and line or beheaded tope.

Mae erthygl 6 yn gosod pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig o ran y Gorchymyn hwn, yn ychwanegol at eu pwerau o dan Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967. Rhagnodir sancsiynau troseddol gan adrannau 5(1), 5(7), 6(5), 6(5A) ac 11 o'r Ddeddf honno.

Article 6 sets out the powers of British sea-fishery officers in respect of this Order, in addition to their powers under the Sea Fish (Conservation) Act 1967. Criminal sanctions are prescribed by sections 5(1), 5(7), 6(5), 6(5A) and 11 of that Act.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol llawn o'r effaith a gaiff yr offeryn hwn ar gael oddi wrth y Gangen Polisi Pysgodfeydd, Llawr 1, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

A full regulatory impact assessment of the effect that this instrument will have is available from the Fisheries Policy Branch, Welsh Assembly Government, 1st Floor, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2008 Rhif 1438 (Cy.150)

2008 No. 1438 (W.150)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

**SEA FISHERIES,
WALES**

**Gorchymyn Cŵn Gleision
(Gwahardd eu Pysgota) (Cymru)
2008**

**The Tope (Prohibition of Fishing)
(Wales) Order
2008**

Gwnaed 4 Mehefin 2008
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 6 Mehefin 2008
Yn dod i rym 1 Gorffennaf 2008

Made 4 June 2008
*Laid before the National
Assembly for Wales* 6 June 2008
Coming into force 1 July 2008

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 5(1), 5(6), 6(1) a (6)(1A) a 15(3) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(1), ac a freiniwyd bellach ynddynt(2), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 5(1), 5(6), 6(1), 6(1A) and 15(3) of the Sea Fish (Conservation) Act 1967(1), and now vested in them (2), make the following Order :

-
- (1) 1967 p. 84. Amnewidiwyd adran 5(1) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p. 29), adran 22(1). Diwygiwyd adran 5(6) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981, adran 22(2). Diwygiwyd adran 6(1) gan O.S. 1999/1820, erthygl 4, Atodlen 2, Rhan I, paragraff 43(1), (6)(a). Mewnosodwyd adran 6(1A) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981, adran 23(2) ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 1999/1820, erthygl 4, Atodlen 2, Rhan I, paragraff 43(1), (2)(b). Amnewidiwyd adran 15(3) gan Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p. 77), adran 22(1), Atodlen 1, Rhan II ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p. 86) adran 9(1), Atodlen 2, paragraff 16(1) ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan O.S. 1999/1820, erthygl 4, Atodlen 2, Rhan I, paragraff 43(1), (2)(b). *Gweler* adran 22(2) o Ddeddf 1967 am ddiffiniadau o "the Ministers" at ddibenion adrannau 5, 6 a 15(3) o'r Ddeddf honno; diwygiwyd adran 22(2) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981, adrannau 19(2)(d) a 45(a), (b) ac (c) a 46(2), Atodlen 5, Rhan II a chan O.S. 1999/1820, Erthygl 4, Atodlen 2, paragraff 43(1), (12) a Rhan IV a chan Ddeddf Cyfansoddiad Gogledd Iwerddon 1973, adran 40, Atodlen 5, paragraff 8(1).
- (2) Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) trosglwyddwyd y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adrannau 5, 6 a 15 o Ddeddf 1967 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddiwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru (gan weithredu ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol o ran adran 15(3)). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weiniogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a paragraff 30 o Atodlen 11 iddi.

-
- (1) 1967 c. 84. Section 5(1) was substituted by the Fisheries Act 1981 (c. 29), section 22(1). Section 5(6) was amended by the Fisheries Act 1981, section 22(2). Section 6(1) was amended by S.I. 1999/1820, article 4, Schedule 2, Part I, paragraph 43(1), (6)(a). Section 6(1A) was inserted by the Fisheries Act 1981, section 23(2) and amended by S.I. 1999/1820, article 4, Schedule 2, Part I, paragraph 43(1), (2)(b). Section 15(3) was substituted by the Sea Fisheries Act 1968 (c. 77), section 22(1), Schedule 1, Part II and amended by the Fishery Limits Act 1976 (c. 86) section 9(1), Schedule 2, paragraph 16(1) and further amended by S.I. 1999/1820, article 4, Schedule 2, Part I, paragraph 43(1), (2)(b). *See* section 22(2) of the 1967 Act for definitions of "the Ministers" for the purposes of sections 5, 6 and 15(3) of that Act; section 22(2) was amended by the Fisheries Act 1981, sections 19(2)(d) and 45(a), (b) and (c) and 46(2), Schedule 5, Part II and by S.I. 1999/1820, Article 4, Schedule 2, paragraph 43(1), (12) and Part IV and by the Northern Ireland Constitution Act 1973, section 40, Schedule 5, paragraph 8(1).
- (2) By virtue of article 2(a) of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) the functions exercisable under sections 5, 6 and 15 of the 1967 Act were transferred to the National Assembly for Wales (as constituted under the Government of Wales Act 1998 (c.38)) in so far as exercisable in relation to Wales (acting concurrently with the Secretary of State in relation to section 15(3)). Those functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

Enwi, chychwyn a cyhmwysu

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cŵn Gleision (Gwahardd eu Pysgota) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 1 Gorffennaf 2008.

(2) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r erthygl hon, mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys i lestri pysgota—

(a) o fewn ystyr Erthygl 3(c) o Reoliad y Cyngor (EC) 2371/2002 ar gadwraeth a defnydd cynaliadwy o adnoddau pysgodfeydd o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin(1), sydd wedi eu cofrestru mewn Aelod-wladwriaeth arall; neu

(b) sydd wedi eu cofrestru mewn trydedd wlad.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "ci glas" ("*tope*") yw'r rhywogaeth *Galeorhinus galeus*; ac

mae i "Cymru" yw'r ystyr a roddir i "*Wales*" gan adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(2).

Gwahardd pysgota

3.—(1) Gwaherddir pysgota am gŵn gleision (heblaw â gwialen a lein).

(2) Os cymerir cŵn gleision ar fwrdd cwch, caniateir eu cadw ar yr amod nad yw cyfanswm y pwysau byw dros 45 cilogram mewn diwrnod.

(3) Ym mharagraff (2), ystyr "pwysau byw" yw pwysau carcasau cŵn gleision wedi eu diberfeddu wedi eu lluosogi â ffactor o 1.125.

Gwahardd trawslwytho

4. Gwaherddir trawslwytho cŵn gleision.

Gwaherddir glanio

5. Ni chaiff unrhyw berson lanio yng Nghymru —

(a) cŵn gleision a ddaliwyd â gwialen a lein, neu

(b) cŵn gleision y torrwyd eu pennau.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of this Order is the *Tope (Prohibition of Fishing) (Wales) Order 2008* and it comes into force on 1 July 2008.

(2) Subject to the provisions of this article, this Order applies in relation to Wales.

(3) This Order does not apply to fishing vessels—

(a) within the meaning of Article 3(c) of Council Regulation (EC) 2371/2002 on the conservation and sustainable exploitation of fisheries resources under the Common Fisheries Policy(1), which are registered in another member State; or

(b) registered in a third country.

Interpretation

2. In this Order —

"*tope*" ("*ci glas*") means the species *Galeorhinus galeus*; and

"*Wales*" ("*Cymru*") has the meaning given by section 158(1) of the Government of Wales Act 2006(2).

Fishing prohibition

3.—(1) Fishing for *tope* (other than by rod and line) is prohibited.

(2) If *tope* are taken on board, they may be retained provided that the total liveweight does not exceed 45 kilogrammes per day.

(3) In paragraph (2), "liveweight" means the weight of the gutted carcasses of *tope* multiplied by a factor of 1.125.

Trans-shipment prohibition

4. The trans-shipment of *tope* is prohibited.

Landing prohibition

5. No person may land in Wales —

(a) *tope* caught by rod and line, or

(b) beheaded *tope*.

(1) OJ Rhif L358, 31.12.2002, t.59, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) 865/2007 (OJ Rhif L192, 24.07.2007, t.1). Mae Erthygl 10 yn caniatáu mesurau, sy'n gymwys i lestri sy'n cyhwanfan baner eu haelod-wladwriaeth eu hun, ar gyfer rheolaeth a chadwraeth stociau, yn ddarostyngedig i amodau penodol.

(2) 2006 p.32.

(1) OJ No. L358, 31.12.2002, p.59, as last amended by Council Regulation (EC) 865/2007 (OJ No. L192, 24.07.2007, p.1). Article 10 permits measures, applying to vessels flying a member State's own flag, for the management and conservation of stocks, subject to certain conditions.

(2) 2006 c.32.

Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig

6.—(1) At ddibenion gorfodi'r Gorchymyn hwn, caiff swyddog arfer y pwerau a ganlyn.

(2) Caiff swyddog fynd ar fwrdd cwch pysgota, gyda neu heb bersonau a bennwyd i gynorthwyo'r swyddog i arfer ei ddyletswyddau, ac at y diben hwnnw caiff ei gwneud yn ofynnol i'r cwch aros a gwneud unrhyw beth arall a fydd yn hwyluso mynd ar fwrdd y cwch.

(3) Caiff swyddog ei gwneud yn ofynnol bod meistr a phersonau eraill sydd ar fwrdd y cwch yn bresennol a chaiff wneud unrhyw archwiliad neu ymchwiliad y mae'n ymddangos i'r swyddog ei bod yn angenrheidiol ei wneud at ddiben gorfodi'r Gorchymyn hwn ac, yn enwedig—

- (a) caiff archwilio unrhyw bysgodyn ar y cwch a chyfarpar y cwch, gan gynnwys yr offer pysgota, a'i gwneud yn ofynnol i bersonau ar fwrdd y cwch wneud unrhyw beth y mae'n ymddangos i'r swyddog ei bod yn angenrheidiol ei wneud i hwyluso'r archwiliad;
- (b) caiff ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ar fwrdd y cwch ddangos unrhyw ddogfen sy'n ymwneud â'r cwch, â'i waith pysgota neu â gwaith cysylltiedig neu â phersonau ar fwrdd y cwch, sydd yng ngafael neu ym meddiant y person hwnnw a chaiff gymryd copïau o'r cyfryw ddogfen;
- (c) at ddibenion cael gwybod a yw'r meistr, perchennog neu siartwr y cwch wedi cyflawni tramgwydd o dan adran 5 neu 6 o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967 fel y'i darllenir gyda'r Gorchymyn hwn, caiff chwilio'r cwch am y cyfryw ddogfen a chaiff ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ar fwrdd y cwch wneud unrhyw beth y mae'n ymddangos i'r swyddog ei bod yn angenrheidiol ei wneud at hwyluso'r chwiliad; ac
- (ch) pan fo'r cwch yn un mewn perthynas ag ef y mae gan y swyddog reswm i amau bod y cyfryw dramgwydd wedi ei gyflawni, caiff, yn ddarostyngedig i baragraff (4), ymafael yn y cyfryw ddogfen a ddangoswyd i'r swyddog neu a gafwyd ar fwrdd y cwch a'i chadw'n gaeth at ddibenion galluogi i'r ddogfen gael ei defnyddio yn dystiolaeth mewn achos ar gyfer y tramgwydd.

(4) Nid oes dim ym mharagraff (3)(ch) yn galluogi'r swyddog i ymafael yn unrhyw ddogfen y mae'n ofynnol ei chario ar fwrdd y cwch a'i chadw'n gaeth ac eithrio tra bo'r cwch yn cael ei gadw'n gaeth mewn porthladd.

(5) Pan ymddangoso i swyddog fod unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn wedi ei thorri ar unrhyw adeg, caiff y swyddog—

Powers of British sea-fishery officers

6.—(1) For the purposes of enforcing this Order, an officer may exercise the following powers.

(2) An officer may go on board a fishing boat, with or without persons assigned to assist in the exercise of the officer's duties, and for that purpose may require the boat to stop and do anything else which will facilitate the boarding of the boat.

(3) An officer may require the attendance of the master and other persons on board the boat and may make any examination or inquiry appearing to the officer to be necessary for the purpose of enforcing this Order and, in particular—

- (a) may examine any fish on the boat and the equipment of the boat, including the fishing gear, and require persons on board the boat to do anything appearing to the officer to be necessary for facilitating the examination;
- (b) may require any person on board the boat to produce any document relating to the boat, to its fishing operations or other operations ancillary thereto or to the persons on board, which is in that person's custody or possession and may take copies of any such document;
- (c) for the purpose of ascertaining whether the master, owner or charterer of the boat has committed an offence under section 5 or 6 of the Sea Fish (Conservation) Act 1967 as read with this Order, may search the boat for any such document and may require any person on board the boat to do anything appearing to the officer to be necessary for facilitating the search; and
- (d) where the boat is one in relation to which the officer has reason to suspect that such an offence has been committed, may subject to paragraph (4) seize and detain any such document produced to the officer or found on board for the purpose of enabling the document to be used as evidence in proceedings for the offence.

(4) Nothing in paragraph (3)(d) enables the officer to seize and detain any document required by law to be carried on board the boat except while the boat is detained in a port.

(5) Where it appears to an officer that a contravention of any provision of this Order has at any time taken place, the officer may—

- (a) cymryd, neu ei gwneud yn ofynnol i'r meistr gymryd, y cwch a'i griw i'r porthladd y mae'n ymddangos i'r swyddog mai ef yw'r porthladd cyfleus agosaf; a
- (b) cadw'r cwch yn gaeth yn y porthladd, neu ei gwneud yn ofynnol i'r meistr ei gadw'n gaeth yno.

(6) Rhaid i swyddog sy'n cadw cwch yn gaeth neu'n ei gwneud yn ofynnol i gwch gael ei gadw'n gaeth gyflwyno i'r meistr hysbysiad ysgrifenedig yn datgan y cedwir y cwch yn gaeth neu y mae'n ofynnol cadw'r cwch yn gaeth hyd nes y tynnir yr hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno i'r meistr hysbysiad ysgrifenedig arall a lofnodwyd gan swyddog.

(7) Yn yr erthygl hon, ystyr "swyddog" yw swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.

- (a) take, or require the master to take, the boat and its crew to the port appearing to the officer to be the nearest convenient port; and
- (b) detain, or require the master to detain, the boat in the port.

(6) An officer who detains or requires the detention of a boat must serve on the master a notice in writing stating that the boat will be or is required to be detained until the notice is withdrawn by the service on the master of a further notice in writing signed by an officer.

(7) In this article, "officer" means a British sea-fishery officer.

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers

4 Mehefin 2008

4 June 2008

WELSH

○

£3.00

W329/06/08

ON